**CORFF Y CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

Cynhaliwyd cyfarfod anghyffredin o Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru trwy gyfrwng cynhadledd fideo ar 27 Ebrill 2020.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | Aelodau *yn rhinwedd eu swyddi*<br>*Archesgob Cymru*<br>Y Parchedicaf J D E Davies | |
| | *Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog*<br>Mrs E M Perkins | |
| | *Cadeiryddion Byrddau Cyllid Esgobaethau:* | |
| | Bangor: | Yr Hybarch M K R Stallard |
| | Tyddewi: | Mr N C P Griffin |
| | Llandaf: | Mr M A Lawley |
| | Mynwy: | Mr P E Lea |
| | Abertawe ac Aberhonddu | Syr E P Silk |
| | Aelodau etholedig | |
| | Llanelwy: | Y Tra Parchedig N H Williams, Mrs H Wiseman |
| | Bangor: | Y Tra Parchedig K L Jones, Dr H Parry-Smith |
| | Tyddewi: | Mrs J A P Hayward, yr Hybarch P R Mackness |
| | Llandaf: | Mr G I Moses, yr Hybarch C B W Smith |
| | Mynwy: | Miss P R Brown, yr Hybarch J S Williams |
| | Abertawe ac Aberhonddu | Yr Hybarch A N Jevons |
| | Aelodau enwebedig<br>Mr J J Turner (Cadeirydd)<br>Mr R Davies<br>Mr P D Kennedy | |
| **Ymddiheuriadau:** | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mrs H Jones, Mr T O S Lloyd, Mr T J P Davenport a Mr L James. | |
| **Yn bresennol:** | Roedd yr aelodau staff canlynol yn bresennol:<br>Ysgrifennydd y Dalaith, y Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo, y Swyddog Llywodraethu a'r Swyddog Cyllid a Llywodraethu. | |
| **Gweddïau:** | Arweiniwyd y gweddïau agoriadol gan yr Hybarch Alan Jevons, Archddiacon Aberhonddu. | |
| **Gwrthdaro buddiannau:** | Datganodd pob clerig a oedd yn bresennol fod ganddynt fuddiant yn y Cynllun Pensiwn i Glerigion (eitem 20/33). Datganodd Mr M Lawley gan ei fod yntau'n Gadeirydd DBF, fod ganddo fuddiant yn yr eitem yn ymwneud ag Eglwys Teilo Sant, Cathays (eitem 20/36). | |

Croesawodd y Cadeirydd yr Archddiacon Mary Stallard i'w chyfarfod cyntaf o Gorff y Cynrychiolwyr ers ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor yn Chwefror 2020.

**Rheol weithdrefnol ar gyfer cyfarfodydd electronig**
20/30

Y sefyllfa bresennol

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau bapur yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng electronig, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd yn sgil y pandemig coronafeirws a'r cyfyngiadau cysylltiedig sydd ar gynulliadau o bobl a theithio.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau at gymalau allweddol yn Siarter Frenhinol Corff y Cynrychiolwyr nad oedd yn caniatáu nac yn gwahardd cynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng electronig, a Chyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru. Roedd y Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff y Cynrychiolwyr gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ond yn rhoi iddo'r gallu i gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y gofyn a phenderfynu ar leoliad a dyddiad y cyfarfodydd. Ar hyn o bryd nid yw'r Cyfansoddiad yn cynnwys diffiniad o 'gyfarfod' er bod y gair yn flaenorol wedi ei ddehongli yn gyfarfod wyneb yn wyneb.

Hefyd roedd y Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi arweiniad ar gyfarfodydd electronig gan ddweud:

> *Where there is no such clause in your governing document and you decide to hold meetings over the phone or using digital solutions, we will understand but you should record this decision and that you have done this to demonstrate good governance of your charity.*

Cyffredin neu anghyffredin

Er ei bod yn gyfreithiol i Gorff y Cynrychiolwyr gyfarfod trwy gyfrwng electronig, roedd y gwahaniaeth rhwng cyfarfod cyffredin ac anghyffredin yn arwyddocaol. Gan ei bod yn ofynnol i Gorff y Cynrychiolwyr yn ôl y Cyfansoddiad gyfarfod fel arfer ddwywaith y flwyddyn, gellid dadlau bod yn rhaid cael caniatâd y Corff Llywodraethol i gynnal cyfarfod trwy gyfrwng electronig, ond y tu hwnt i'r cyfarfodydd cyffredin hynny gallai Corff y Cynrychiolwyr ei hun benderfynu cyfarfod yn electronig. Roedd Corff y Cynrychiolwyr eisoes wedi cynnal cyfarfod cyffredin yn ystod 2020 (ar 5 Mawrth) ac roedd cyfarfodydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Felly dynodwyd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill yn gyfarfod anghyffredin ac ni ellid ei gyfrif yn un o'r ddau gyfarfod cyffredin gofynnol o Gorff y Cynrychiolwyr yn ystod 2020.

Penderfyniad

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd mynegwyd cefnogaeth gadarn i Gorff y Cynrychiolwyr a'i bwyllgorau, yn ogystal ag i gyrff eraill yr Eglwys yng Nghymru, allu cyfarfod yn gyson ac yn gyfreithiol trwy gyfrwng electronig gydag aelodau'n cydnabod y manteision amgylcheddol yn ogystal â'r effeithlonrwydd o ran amser ac arian. Byddai'r posibilrwydd o ddiwygio'r Cyfansoddiad i sicrhau dilysrwydd cyfarfodydd a gynhelir trwy gyfrwng electronig yn cael ei archwilio.

Er mwyn cysoni'r sefyllfa bresennol, penderfynodd Corff y Cynrychiolwyr wneud y rheolau ychwanegol canlynol er mwyn rheoleiddio gweithdrefn eu cyfarfodydd a chyfarfodydd eu pwyllgorau:

a) *Gellir cynnal cyfarfod (ac eithrio cyfarfod cyffredin) o ymddiriedolwyr Corff y Cynrychiolwyr gan gworwm o ymddiriedolwyr nad ydynt i gyd yn bresennol yn yr un lle ond y mae pob un ohonynt yn abl i glywed a siarad â phob un o weddill yr ymddiriedolwyr (yn uniongyrchol neu dros y ffôn, fideo neu ddull cyfathrebu electronig arall). Ystyrir bod ymddiriedolwr sy'n cymryd rhan mewn cynhadledd o'r fath yn bresennol ei hun yn y cyfarfod a bod ganddo'r hawl i bleidleisio a chael ei gyfrif yn y cworwm. Ystyrir bod y cyfarfod yn digwydd yn y lle ble mae'r grŵp mwyaf o ymddiriedolwyr wedi ymgynnull (lle nad oes grŵp o'r fath wedi ymgynnull) yn swyddfa gofrestredig Corff y Cynrychiolwyr.*

b) *Yn amodol ar baragraff (c) isod, gall unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o Gorff y Cynrychiolwyr gael ei gynnal gan gworwm o'r aelodau nad ydynt i gyd yn bresennol mewn un lle ond lle bydd pob un yn abl i glywed a siarad â phob un o'r aelodau eraill (yn uniongyrchol neu dros y ffôn, fideo neu gyfrwng cyfathrebu arall). Ystyrir bod aelod sy'n cymryd rhan mewn cynhadledd o'r fath yn bresennol ei hun yn y cyfarfod a bod ganddo'r hawl i bleidleisio a chael ei gyfrif yn y cworwm. Ystyrir bod y cyfarfod yn digwydd yn y lle ble mae'r grŵp mwyaf o aelodau wedi ymgynnull (lle nad oes grŵp o'r fath wedi ymgynnull) yn swyddfa gofrestredig Corff y Cynrychiolwyr.*

c) *Gall ymddiriedolwyr Corff y Cynrychiolwyr o dro i dro bennu lleiafswm o gyfarfodydd o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor y bydd yn rhaid ei gynnal fel cyfarfod gyda phobl yn gorfforol bresennol a lle na fydd darpariaethau paragraff (b) uchod yn berthnasol mewn unrhyw flwyddyn galendr.*

**Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth**
20/31

Atgoffodd y Swyddog Llywodraethu Gorff y Cynrychiolwyr yn eu cyfarfod ym Mawrth 2020 (eitem 20/04) iddynt gymeradwyo pwerau diwygiedig a dyletswyddau ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth i fod yn bwyllgor gyda chyfrifoldeb llywodraethu am Athrofa Padarn Sant. Roedd meini prawf aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys dau esgob, a benodir gan Fainc yr Esgobion gydag un o'r cyfryw yn Gadeirydd ar y Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Swyddog Llywodraethu fod Mainc yr Esgobion wedi cwrdd ers y cyfarfod ac wedi trafod cynrychiolaeth esgobol ar y Pwyllgor Datblygu Hyfforddiant, Ffurfiant a'r Weinidogaeth gan benodi fel a ganlyn:

- Yr Archesgob yn Gadeirydd ar y Pwyllgor;
- Esgob Mynwy, y Gwir Barchedig Cherry Vann, yn ail gynrychiolydd esgobol.

Cymeradwyodd Corff y Cynrychiolwyr y ddau benodiad.

Nododd y Swyddog Llywodraethu fod Esgob Mynwy wedi cael ei dewis gan y Fainc yn ddiweddar i fod yn gyfrifol am waith y portffolio gweinidogaeth, ac y byddai'r Archesgob fel aelod yn rhinwedd ei swydd o Gorff y Cynrychiolwyr, yn darparu cysylltiad uniongyrchol rhwng y Pwyllgor a Chorff y Cynrychiolwyr. Byddai'r ddau esgob fel ei gilydd yn darparu cysylltiad uniongyrchol rhwng y Pwyllgor a'r Fainc a oedd â goruchwyliaeth strategol o Athrofa Padarn Sant.

Nododd Corff y Cynrychiolwyr fod ymholiadau i nodi penodiad addas fel ei ail gynrychiolydd ar y Pwyllgor yn parhau.

**Sefyllfaoedd ariannol Corff y Cynrychiolwyr ac esgobaethau**
20/32

Sefyllfa'r dalaith

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol bapur cynhwysfawr yn diweddaru Corff y Cynrychiolwyr am effaith ariannol y pandemig coronafeirws, a chafwyd trafodaeth. Cadarnhawyd bod y Pwyllgor Buddsoddi wedi cwrdd â phob un o reolwyr buddsoddiadau ac asiant eiddo buddsoddi Corff y Cynrychiolwyr i ganfod yr effaith ar y portffolio buddsoddiadau.

Rhagwelwyd y byddai llai o ddifidend gyda'r lleihad hyd at 50% a gallai'r incwm o eiddo rhent fod 50% yn llai. Cynhyrchwyd rhagolygon ariannol diwygiedig ar gyfer 2020 a 2021, ynghyd â rhagolygon llif arian ar sail y lleihad disgwyliedig mewn incwm buddsoddi, rhagwelwyd y byddai'r diffyg blynyddol ar gyfer 2020 yn cynyddu o £2.762 miliwn i £7.8 miliwn, a'r diffyg ar gyfer 2021 yn debygol o gynyddu o £2.26 miliwn i £8 miliwn.

Sefyllfaoedd esgobaethol

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chadeiryddion byrddau cyllid esgobaethol a'r ysgrifenyddion esgobaethol hefyd er mwyn sefydlu sefyllfaoedd ariannol yr esgobaethau. Ymgynghorwyd â Mainc yr Esgobion hefyd. Nodwyd ar hyn o bryd fod Corff y Cynrychiolwyr mewn sefyllfa dda o ran arian parod, arian y gellid ei ddarparu i esgobaethau pe bai angen i gynorthwyo llif arian esgobaethol.

Roedd pob esgobaeth wedi nodi pryder ynghylch lefelau is o incwm o fuddsoddiadau ac o'r casgliad o gyfran y plwyf, yn enwedig yn yr ail a'r trydydd chwarter. Er mwyn helpu i liniaru hyn, lansiwyd trefn ar-lein i ganiatáu i blwyfi a phlwyfolion unigol gofrestru er mwyn rhoi trwy gyfrwng y drefn Cymorth Rhodd ar-lein.

Trafodaeth a phenderfyniadau

Cafwyd trafodaeth fanwl a helaeth ar y sefyllfa bresennol ac yna'r cymorth y gallai Corff y Cynrychiolwyr ei ddarparu i esgobaethau. Nodwyd bod y pandemig coronafeirws cyfredol wedi dod ar ben y pwysau sylweddol yn sgil y dirywiad cynulleidfaol a oedd eisoes ar blwyfi ac esgobaethau a bod cefnogaeth ariannol gan Gorff y Cynrychiolwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau cymorth ariannol yn y dyfodol agos.

O ganlyniad i'r drafodaeth cytunwyd ar becyn o gymorth ariannol i esgobaethau ar gyfer y presennol, gan barhau i adolygu'r sefyllfa a chynnal deialog rhwng yr esgobaethau a'r dalaith. Cytunodd Corff y Cynrychiolwyr hefyd ar gyfres o egwyddorion a fyddai'n sail i'r cymorth ariannol. Mae'r penderfyniadau dilynol wedi ei nodi yn atodiad 1.

**Cynllun Pensiwn Clerigion – prisiant actiwaraidd ar 31 Rhagfyr 2019**
20/33

Adroddodd y Pennaeth Cyllid y cynhaliwyd prisiant actiwaraidd teirblwydd y Cynllun Pensiwn i Glerigion ar 31 Rhagfyr 2019, a gwelir y canlyniadau yn y tabl isod ynghyd â chymariaethau â dau brisiant blaenorol yn 2016 a 2013:

| | **31 Rhag 2019** | **31 Rhag 2016** | **31 Rhag 2013** |
|---|---|---|---|
| Gwerth atebolrwydd gwasanaeth blaenorol | **£196.2 miliwn** | £187.8 **miliwn** | £158.9 **miliwn** |
| Gwerth ar y farchnad y Cronfeydd Cyffredinol | **£719.8 miliwn** | £607 **miliwn** | £512 **miliwn** |
| Atebolrwydd fel cyfran o'r Cronfeydd Cyffredinol | **27.3%** | 30.9% | 31.1% |
| Cyfraniad cyflogwr (telir gan esgobaethau) | **36.5%** | 38.8% | 32.7% |

Eglurodd y Pennaeth Cyllid, yn sgil y prisiant, fod cyfran y Cronfeydd Cyffredinol fydd angen eu clustnodi ar gyfer y Cynllun Pensiwn i Glerigion - sef incwm ac enillion a cholledion a wireddwyd - wedi lleihau o 30.9% i 27.3%. Ar sail cyllideb 2020 (incwm a gwariant) a gymeradwywyd gan Gorff y Cynrychiolwyr yn Nhachwedd 2019 (cofnod 19/45), roedd hyn yn cyfateb i arbedion o £653,000.

Yn yr un modd roedd cyfraniad cyflogwr (sy'n cynrychioli'r cyfraniad gwasanaeth cyfredol ac a dalwyd gan yr esgobaethau) wedi lleihau i 36.5% o 38.8%, sy'n cyfateb i gyfanswm arbedion i'r esgobaethau yn 2020 o £187,000.

<u>Gweithredu'r cyfraddau cyfrannu diwygiedig</u>

Atgoffodd y Pennaeth Cyllid Gorff y Cynrychiolwyr mai'r arfer cyffredin oedd gweithredu'r cyfraddau cyfrannu diwygiedig ar unwaith ar ôl dyddiad y prisiant. Fodd bynnag, gan ragweld y byddai cyfraddau cyfrannu yn cynyddu yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2019 (cofnod 19/46) roedd Corff y Cynrychiolwyr wedi cytuno i ohirio gweithredu unrhyw gyfraddau diwygiedig tan 1 Ionawr 2021 er mwyn rhoi cyfle i esgobaethau gynllunio'u cyllidebau ar gyfer hyn.

Gan fod y prisiant actiwaraidd wedi achosi lleihad yn y cyfraddau cyfrannu roedd yn fwy manteisiol yn ariannol i'r cyfraddau gael eu gweithredu o 1 Ionawr 2020, yn unol â'r drefn arferol. Felly, cynigwyd y byddai Corff y Cynrychiolwyr yn diddymu ei benderfyniad ym mis Tachwedd 2019 ac yn cytuno yn lle hynny i weithredu'r cyfraddau cyfrannu diwygiedig o 1 Ionawr 2020.

<u>Crynodeb</u>

Ar ôl trafod, penderfynodd Corff y Cynrychiolwyr:

i. Dderbyn a chymeradwyo prisiant actiwaraidd Cynllun Pensiwn y Clerigion fel yn 31 Rhagfyr 2019;
ii. Nodi lleihad yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 38.8% i 36.5%;
iii. Nodi atebolrwydd Cynllun Pensiwn y Clerigion gan fod cyfran Cronfeydd Cyffredinol Corff y Cynrychiolwyr wedi lleihau o 39.9% i 27.3%;
iv. Cadarnhau bod y cyfraddau cyfrannu diwygiedig yn cael eu gweithredu o 1 Ionawr 2020, gan ddiddymu'r penderfyniad yn Nhachwedd 2019 (cofnod 19/46).

**Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol *OneFamily* (AVC)**
20/34

Yn ei gyfarfod ym Mawrth 2020 (cofnod 20/24) nododd Corff y Cynrychiolwyr fod gweinyddydd y cynllun lle'r oedd clerigion yn gallu gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

(AVC) i'w darpariaeth pensiwn wedi dangos bod y cyfansymiau di-dreth a dalwyd o'r cynllun AVC i bensiynwyr clerigol rhwng 2007 a 2019 (gan effeithio ar oddeutu 75 o glerigion) wedi bod 25% yn uwch na gwerth y gronfa AVC. Gallai CThEM ystyried hyn yn daliad anawdurdodedig gan beri bod treth sylweddol i'w thalu ar ran aelodau'r cynllun ac ar ran Corff y Cynrychiolwyr sef ymddiriedolwyr y cynllun.

Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol arbenigol a rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ddiweddariad i Gorff y Cynrychiolwyr ar y sefyllfa bresennol.

Ar ôl trafod, penderfynodd Corff y Cynrychiolwyr:

i. Nodi'r sefyllfa bresennol;
ii. Y byddai swyddogion awdurdodedig yn trafod gyda chynghorwyr cyfreithiol y posibilrwydd o dalu'n rhagweithiol unrhyw ddyledion sy'n daladwy i'r pensiynwyr clerigol;
iii. I nodi'r tebygolrwydd y byddai'n ofynnol cael adroddiad digwyddiad difrifol ar gyfer y Comisiwn Elusennau.

**Amserlen ar gyfer dadfuddsoddi o ddaliadau stoc yn y sector nwy ac olew**
20/35

Atgoffodd y Pennaeth Cyllid Gorff y Cynrychiolwyr eu bod yn eu cyfarfod ym Mawrth 2020 (cofnod 20/05) wedi cymeradwyo nifer o ddiweddariadau i'r Polisi Buddsoddi Moesegol yn cynnwys dadfuddsoddi o unrhyw gwmni yr oedd mwy na 5% o'i drosiant yn deillio o gynhyrchu neu echdynnu tanwydd ffosil, gan nodi'n benodol y byddai dadfuddsoddiadau o'r fath yn cael eu cwblhau erbyn diwedd 2020.

Roedd yr effaith andwyol a gawsai'r pandemig coronafeirws cyfredol ar yr hinsawdd ariannol yn golygu bod gwerth buddsoddiadau Corff y Cynrychiolwyr ar y farchnad wedi syrthio'n sylweddol ac nad oedd yn ddoeth gwerthu daliadau stoc yn y fath hinsawdd. Roedd Sarasin and Partners eisoes wedi gwerthu'r holl ddaliadau stoc perthnasol a oedd yn y portffolio (cyn effeithiau economaidd gwaethaf y pandemig), roedd Newton Investment Management yn parhau â daliadau stoc yn BP a Shell, gyda'u gwerth cyfredol yn c.£3 miliwn yn is na'u gwerth.

Nid oedd yn hysbys pryd y byddai gwerth y stociau perthnasol yn gwella ac roedd yn bosibl na fyddent wedi gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr, sef y dyddiad terfynol ar gyfer dadfuddsoddi.

Ar ôl trafod, cymeradwyodd Corff y Cynrychiolwyr yr argymhelliad i ddal yn ôl eu penderfyniad blaenorol i ddadfuddsoddi erbyn 31 Rhagfyr 2020, a chyfarwyddo'r Pwyllgor Buddsoddi i drafod gyda rheolwyr y gronfa fuddsoddi i drefnu dadfuddsoddi ar adeg a fyddai'n ariannol ddoeth.

**Eglwys Teilo Sant, Cathays**
20/36

Gadawodd Mr Michael Lawley, sef Cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Llandaf y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Fodd bynnag, cyn gadael cefnogodd a chymeradwyodd y cais a wnaed gan y Bwrdd.

<u>Cefndir</u>

Hysbysodd Ysgrifennydd y Dalaith Gorff y Cynrychiolwyr fod cais wedi ei dderbyn oddi wrth Fwrdd Cyllid Esgobaeth Llandaf am fenthyciad a oedd yn gysylltiedig â chostau adeiladau yn

eglwys Teilo Sant, Cathays. Un elfen o strategaeth gyffredinol yr esgobaeth yn benodol oedd ceisio estyn allan ac ymgysylltu â'r cenedlaethau hynny nad oedd ar hyn o bryd wedi eu cysylltu â'r Eglwys. Roedd Eglwys Teilo Sant, Cathays wedi ei chlustnodi fel un a allai fod â rhan allweddol yn y fenter *Young Faith Matters* oherwydd ei lleoliad yng nghymuned myfyrwyr Caerdydd, ac roedd yn mynd i fod yn eglwys adnoddau, a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â myfyrwyr ac â theuluoedd ifanc. Roedd y grant a ddyfarnwyd i'r esgobaeth o'r Gronfa Efengylu yn gynharach yn 2020 yn mynd i ariannu'r prosiect hwn.

Roedd periglor a churad wedi eu penodi ac roedd oddeutu 35 o unigolion wedi ymrwymo i symud i Gaerdydd i helpu i sefydlu'r prosiect hwn.

<u>Eglwys Teilo Sant</u>

Adeilad Fictoraidd oedd eglwys Teilo Sant ac roedd angen gwneud gwaith atgyweirio hanfodol i ffabrig yr adeilad, yn ogystal â gwneud addasiadau a gwelliannau er mwyn i'r adeilad fod yn addas ar gyfer gwaith efengylu.

<u>Y sefyllfa ariannol gyfredol</u>

Nid oedd cyllid ar gyfer y math hwn o waith yn rhan o grant y Gronfa Efengylu, ond roedd benthyciad wedi ei addo gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth (DBF) yn lle hynny. Fodd bynnag roedd y pandemig coronafeirws a'i effaith economaidd wedi achosi diffyg incwm i'r DBF gan gyfyngu ar werth eu buddsoddiadau. Gan nad oedd yn ddoeth datod asedau yn yr hinsawdd economaidd bresennol, roedd y DBF wedi gofyn am fenthyciad o £525,000 oddi wrth Gorff y Cynrychiolwyr er mwyn darparu'r cyllid angenrheidiol a pharhau â'r gwaith oedd angen ei wneud yn eglwys Teilo Sant a chaniatáu i'r prosiect fwrw ymlaen.

<u>Trafodaeth</u>

Cafwyd trafodaeth fanwl i ddilyn, a oedd yn cydnabod ymrwymiad sylweddol y DBF i'r cynllun yn ogystal â natur arloesol ac eofn y prosiect. Nodwyd, gan fod y pandemig coronafeirws cyfredol yn achosi cyfyngiadau ar symud ac ar waith penodol ac y byddai'n debygol o achosi oedi i'r gwaith dan sylw, mai gwell fyddai sicrhau nad oedd unrhyw oedi yn cael ei achosi oherwydd cyfyngiadau ariannol.

Pwysleisiwyd y dylid rheoli cyfathrebiadau yn ofalus er mwyn diogelu rhag y perygl o'r sefyllfa'n cael ei chamddeall a Chorff y Cynrychiolwyr yn cael ceisiadau am fenthyciadau ar gyfer prosiectau addasu ac atgyweirio adeiladau gan eglwysi ledled y dalaith. Nodwyd bod y benthyciad hwn at ddiben penodol iawn ac y byddai'n rhaid mynegi'r telerau yn ofalus iawn er mwyn sicrhau nad oedd cynsail yn cael ei osod.

Teimlwyd y dylai'r benthyciad fod yn amodol ar log ac ar negodi telerau penodol, yn cynnwys amod y byddai'r benthyciad yn cael ei ad-dalu pan ddychwelai'r asedau i'r gwerth blaenorol cyn y pandemig.

<u>Casgliad</u>

Ar ôl trafod, cytunodd Corff y Cynrychiolwyr fel a ganlyn:

i. Mewn egwyddor, cytuno i roi benthyciad i Fwrdd Cyllid Esgobaeth Llandaf i ganiatáu parhau â'r gwaith o addasu ac atgyweirio ffabrig eglwys Teilo Sant, Cathays;

ii. Cyfarwyddo'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Eiddo i negodi telerau penodol gyda Bwrdd Cyllid Esgobaeth Llandaf trwy gytundeb ysgrifenedig a baratowyd gan yr adran gyfreithiol;
iii. Awdurdodi Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr a Chadeirydd y Pwyllgor Eiddo i gymeradwyo'r telerau ar ran Corff y Cynrychiolwyr.

Dychwelodd Mr Lawley i'r cyfarfod.

**Cymynrodd i Gorff y Cynrychiolwyr**
20/37

Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol Gorff y Cynrychiolwyr i'r Corff gael ei enwi fel yr unig fuddiolwr yn ystâd yr ymadawedig Mr Michael Edmund Harrop. Nid oedd unrhyw sôn am eglwys, plwyf neu esgobaeth benodol yn Ewyllys Mr Harrop felly roedd yn gymynrodd glir ac unig i Gorff y Cynrychiolwyr.

Roedd yr ystâd yn cynnwys c.£2,000 o arian parod a buddiant rhydd-ddaliol mewn eiddo preswyl ym Modelwyddan, Sir Ddinbych a oedd wedi ei brisio yn werth £500,000. Roedd yn debygol y byddai'r eiddo yn cael ei roi ar y farchnad i'w werthu ar ôl i'r profiant gael ei roi, pan fyddai amodau'r farchnad yn caniatáu ac yn unol â chyngor gan syrfëwr siartredig.

Er mwyn hwyluso'r sefyllfa, roedd yn ofynnol awdurdodi unigolyn i wneud cais am brofiant ar ran Corff y Cynrychiolwyr. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ei fod yntau'n barod i wneud y gwaith. Felly penderfynodd Corff y Cynrychiolwyr fel a ganlyn:

> Trwy hyn felly penodir MATTHEW JAMES CHINERY sef Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Corff y Cynrychiolwyr yn enwebai Corff y Cynrychiolwyr i'r diben o godi llythyrau gweinyddu ar ystâd MICHAEL EDMUND HARROP o Ben Isa'r Glascoed, Bodelwyddan, Sir Ddinbych, LL22 9DD fu farw ar 10 Ebrill 2019 gan adael Corff y Cynrychiolwyr fel yr unig fuddiolwr o'i Ewyllys.

Trafododd Corff y Cynrychiolwyr haelioni'r gymynrodd, gan deimlo ei bod yn briodol i gymynroddion o'r fath gael eu cydnabod mewn rhyw fodd. Cytunwyd y byddai trafodaethau'n digwydd gyda'r plwyf lleol i'r diben hwnnw.

**Y Cyfarfod Nesaf**

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf Corff y Cynrychiolwyr ddydd Llun 15 Mehefin 2020 hefyd trwy gynhadledd fideo.

**Gweddïau i gloi**

Offrymodd yr Archesgob weddi i gloi'r cyfarfod.

**<u>Annex 1</u>**

## <u>Summary of the principles and decisions made by the Representative Body on 27 April 2020 for the provision of financial assistance to dioceses</u>

### Principles

1. The Representative Body is mindful of the principle of inter-generational equity and will carefully consider both the effect that releasing additional funds now could have on the ability to generate income in the future but also the pressing and exceptional needs of today's church.

2. The Representative Body will continue to invest on a total return basis and will instruct the fund managers accordingly.

3. The provision of additional financial support should conform to the principle of 'receiving according to need'. The RB must not be tight-fisted but neither must the DBFs gain additional reserves. We are all in this together as one Church and must be open with each other about financial matters.

4. Any additional support from the Representative Body should be conditional on DBFs committing to mitigation measures to minimise the difference between income and expenditure. These could include measures to ensure that levels of giving do not decline simply because our buildings are closed. An example would be active encouragement of online giving either through Gift Direct or alternative schemes. Dioceses are also encouraged to commit, both internally and as part of the provincial family, to interrogate costs and seek sustainable, innovative cost savings.

5. Acceleration of the pace of change. In its move to online services, the Church in Wales has shown it has the ability to implement rapid, radical, unplanned and unforeseen change – it is recognised that change is also needed in the way the Church in Wales is structured. Responsibility for the consideration and implementation of structural change rests with the Governing Body and its Standing Committee but the Representative Body recognises the benefits structural streamlining would offer both in terms of financial efficiency and in the Church in Wales's ability to respond more nimbly to crises. The Representative Body supports a further exploration of the relevant, currently unimplemented, structural recommendations in the 2012 Church in Wales Review report and would support the Standing Committee in this work. It would hope that the diocese would also actively support this work and engage in any discussions.

6. The funding provided by the Representative Body to the six cathedrals continues, for the time being, to be via the DBFs rather than by way of direct grant. The RB is mindful that a working group is currently interrogating the appropriateness of this arrangement and that recommendations are being prepared.

### Financial support for DBFs

Informed by these six principles, the Representative Body agreed:

i. To delay collection of the Q1 2020 recharge due from the dioceses on 30 April 2020 until 31 July 2020. This due date extension to be interest-free.

ii. To absorb rather than recharge all stipend costs due in Q2. For the avoidance of doubt, stipend costs include stipends, pension contributions, employer's national insurance contributions and council tax. This absorption is conditional upon:

   a. DBFs agreeing to forego payment of the Q2 block grant with the exception of Parsonage Board Scheme contributions which will be paid to DBFs by bank transfer on 30th June 2020.
   b. DBFs agreeing to support the six principles and taking active steps to close the gap between income and expenditure.

The additional cost to the RB of this arrangement is £3.145 million per quarter.

iii. To plan for financial assistance to be provided along the lines set out in (ii) to apply for Q3 (and possibly Q4) but this to be on the basis of a written funding request from each DBF to the RB for a mixture of grant (which may be as high as 100% of the Q2 figure should the national situation necessitate this), loan and credit extension up to the net financial assistance given in Q2. The RB Trustees will meet again in the coming weeks to discuss the detail of this arrangement but are likely to ask for:

- A detailed financial statement which includes the income position and share collection position at the half year; the most recent valuation of the DBF's investment portfolio together with the value at the end of 2019, three years ago and five years ago; and the most recent income forecast from the investment managers;
- The mitigation steps taken by DBF and wider diocese;
- The amount requested, by category; and
- Particulars of critical situations in the dioceses (including its cathedral) of which the RB should be aware.

iv. Noting that regular communication is vital in these uncertain times, the RB requested the Head of Finance to keep in close touch with the diocesan secretaries/diocesan heads of finance.